Gwobr CIEH Lefel 2 mewn Trin a Chodi â Llaw – Egwyddorion ac Ymarfer (Cwrs Undydd)

Anelir y cymhwyster hwn at bobl sy'n trin a chodi pethau â llaw wrth eu gwaith, ac mae'n darparu gwybodaeth hanfodol am beryglon trin a chodi â llaw, a sut i reoli'r rheiny.

Bydd yr ymgeiswyr yn dysgu am egwyddorion trin a chodi â llaw ynghyd â thechnegau ymarferol, ac yn ennill Gwobr CIEH Lefel 2 mewn Trin a Chodi â Llaw – Egwyddorion ac Ymarfer.

Pwy sydd angen y cymhwyster hwn?

Unrhyw weithwyr sy'n gorfod trin a chodi pethau â llaw yn y gwaith, gan gynnwys gweithwyr diwydiannol a gweithwyr swyddfa.

Pam fod yr hyfforddiant yn bwysig?

Dan Reoliadau Gwaith Trin a Chodi â Llaw 1992, mae'n ofynnol bod cyflogwyr yn cymryd camau priodol i leihau'r perygl o anafiadau i weithwyr – mae hynny'n cynnwys darparu hyfforddiant addas. Mae Gwobr CIEH Lefel 2 mewn Trin a Chodi â Llaw – Egwyddorion ac Ymarfer yn cyfuno'r elfennau damcaniaethol ac ymarferol y pwnc, ac yn dysgu technegau codi, cario, gwthio a thynnu gwrthrychau yn ddiogel wrth eu pwysau eu hunain.

Canlyniadau dysgu

- Adnabod a deall y peryglon sy'n gysylltiedig â thrin â llaw
- Dysgu am werth asesiadau risg a sut i'w defnyddio
- Gwneud argymhellion er mwyn rheoli peryglon
- Defnyddio egwyddorion trin a chodi yn ddiogel wrth gyflawni amrywiaeth o orchwylion beunyddiol.

Hyd: Rhaglen undydd gan gynnwys sesiwn ymarferol
Asesu: Arholiad amlddewis ac asesiad ymarferol
Achrededig gan Ofqual: Ydyw
Cyfeirnod Cymhwyster Ofqual: 500/5516/1
Rhagofynion: Dim

Canolfan Bwyd Cymru/Food Centre Wales, Horeb, Llandysul, Ceredigion, SA44 4JG.
Ffôn/Tel - 01559 362230 **Ffacs**/Fax - 01559 362086
e-bost/e-mail - gen@foodcentrewales.org.uk